

Symposiwm Masnach, Iechyd a Llesiant

Dydd Iau 7 Tachwedd 2019

Hyb y Gwyddorau Bywyd,
Caerdydd

10:30 - 15:00

Bydd cofrestru yn agor am 10.00am

O ganlyniad i'r penderfyniad i adael yr UE, bydd y DU yn datblygu ei pholisi masnach annibynnol am y tro cyntaf ers dros 40 mlynedd. Mae goblygiadau sylweddol yn sgil hyn i ystod o'r penderfynyddion iechyd a llesiant yng Nghymru yn cynnwys safonau bwyd, diogelwch amgylcheddol, rheoliadau tybaco ac alcohol, yn ogystal ag amodau gwaith.

Nod y symposiwm yw datblygu a rhannu gwybodaeth am yr amgylchedd polisi masnach newydd a'i oblygiadau polisi posibl i iechyd a llesiant yng Nghymru. Bydd ystod o arbenigwyr ym maes iechyd y cyhoedd a masnach yn rhannu eu mewnwelediad, a bydd y diwrnod o gymorth i feithrin gallu a rhwydweithiau ar gyfer ymgysylltu yn y maes posibl allweddol hwn ar gyfer "Cymru Iachach".

Cynulleidfa: Gwneuthurwyr polisiau, academyddion, arweinwyr y sector cyhoeddus, y trydydd sector, arbenigwyr iechyd y cyhoedd, GIG, undebau llafur.

Gweler isod am gopi o'r rhaglen.

Os hoffech archebu lle yn y gweithdy cofrestrwch [yma](#).

Noder bod y lleoedd ar gyfer y digwyddiad hwn yn gyfyngedig

Darperir cinio a lluniaeth (hysbyswch [Vicky Smith](#) os oes gennych unrhyw ofynion deietegol penodol).

Symposiwm Masnach, Iechyd a Llesiant

Dydd Iau 7 Tachwedd 2019

Nod: Ymateb i'r argymhellion yn adroddiad "Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd" (PHW, 2019) y dylai system iechyd y cyhoedd ystyried sut i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gallu er mwyn sicrhau bod iechyd a llesiant yn cael eu hystyried yn flaenllaw mewn polisiau a chytundebau masnach y DU i'r dyfodol. Bydd y digwyddiad hwn yn cyfrannu at ddatblygu gwybodaeth a chydweithredu yng Nghymru ar y penderfyniadau economaidd iechyd allweddol hwn.

Cynulleidfa: Gwneuthurwyr polisiau, academyddion, arweinwyr y sector cyhoeddus, y trydydd sector, arbenigwyr iechyd y cyhoedd.

Lleoliad: Hyb Gwyddorau Bywyd, Bae Caerdydd

Cadeirydd: Tracey Cooper, Prif Swyddog Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru

AGENDA

10.00 Cofrestru a choffi

10.30 **Croeso a sylwadau agoriadol, Tracey Cooper, Prif Swyddog Gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Cyflwyniadau:

- **Cefndir: "Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru":** prif ganfyddiadau *Liz Green a Nerys Edmonds, Iechyd Cyhoeddus Cymru*
- **Cyd-destun newydd i bolisi masnach ar draws y DU: peryglon a chyfleoedd ar gyfer datganoli a blaenoriaethau polisi yng Nghymru?** *Emma Edworthy, Llywodraeth Cymru*
- **Cytundebau masnach ac iechyd y cyhoedd: trosolwg gyda ffocws ar wasanaethau iechyd a marchnadoedd llafur,** *Dr. Courtney McNamara, Prifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Norwy*
- **Cyflwyno PETRA: Partneriaeth Ymchwil Ataliaeth newydd y DU ar rwydwaith iechyd a masnach – ffocws ar fasnach a chlefydau anhrosoglwyddadwy,** *Dr Andi Mabhala, Prifysgol Caer*

Holi ac Ateb a Thrafodaeth Banel

12.45 Cinio

Sesiwn y Prynawn: ymgysylltu a dylanwadu ar bolisi masnach

- **Glasbrint y Gyfadran Iechyd y Cyhoedd ar gyfer ymagwedd iechyd y cyhoedd tuag at gyfundebau masnach y dyfodol: ymgysylltu iechyd y cyhoedd a chymdeithas sifil mewn polisi masnach,** *Dr Susan Lloyd, Aelod arwain Polisi y Bwrdd, Cyfadran Iechyd y Cyhoedd*

Trafodaethau grŵp: Ymgysylltu a dylanwadu ar bolisi masnach i'r dyfodol – beth ddylem fod yn ei wneud yng Nghymru? Beth yw'r meysydd / amcanion iechyd y cyhoedd allweddol ar gyfer ymgysylltu mewn polisi masnach?

Please note that this agenda is subject to change without notice

Sylwadau terfynol

15:00 Cau